**Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Llun, 11 Gorffennaf 2022 am 10.00am.

## Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -

Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr) (Cadeirydd)
Ms Sindy Absalom – Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
David Francis - Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

## Swyddogion yn bresennol:

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys
Ms T Watson - Uwch Swyddog Democrataidd a Materion Craffu

**13 Croeso**

Oherwydd absenoldeb yr Athro Hugh Coombs, cymerodd Mr Rob Whiles swydd y Cadeirydd. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT a dywedodd pa mor braf oedd gweld pawb wyneb yn wyneb. Aeth ati i atgoffa'r Aelodau y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnig yn y dull hybrid. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod newydd, Ms Sindy Absalom, i'w chyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf.

**14 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Aeth y Cadeirydd ati i atgoffa'r aelodau o gyfrinachedd y trafodion.

**15 COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 30 Mai 2022 eu **CYMERADWYO** fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar ddiwygiadau'r Cadeirydd, yr Athro Hugh Coombs.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y materion isod i'r Aelodau.

**16 Materion sy'n codi**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd o ganlyniad i gofnodion y cyfarfod ym mis Mai 2022:

Materion sy'n codi -

Tudalen 4 - Cadarnhaodd YK ei bod wedi derbyn polisi pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru, a gytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bartneriaeth.

Tudalen 6 – Nododd IT na chafwyd ymateb o ran yr Arolwg Rheolyddion Pensiynau. CB i ymchwilio i hyn.

<u>Camau gweithredu:</u>

Trafodwyd amserlen cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, ynghyd â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd. Bydd hwn yn cael ei gynnal yn y dull hybrid. Cadarnhaodd IT ddyddiadau'r Pwyllgor Pensiynau a'r panel Buddsoddi mewn Pensiynau i gyd-fynd ag amserlen arfaethedig y Bwrdd. O ran cofnodion y Pwyllgor Pensiynau, nodwyd bod y cyfarfod nesaf yfory (12 Gorffennaf).

6. Fframwaith Gwybodaeth a Dealltwriaeth -

Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddiant i'w hychwanegu at y rhestr at y Cyfarwyddwr Gwasanaeth. Cydnabuwyd bod cyfarfodydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn addysgiadol iawn. Nododd YK fod Cyfarfod Grŵp Swyddogion yn cael ei gynnal yfory (12 Gorffennaf) a byddai'n cadarnhau dyddiadau hyfforddi'r Bartneriaeth bryd hynny. Nododd y Cadeirydd fod HC wedi mynychu hyfforddiant Barnett Waddingham yn Llundain, a byddai'n dda cael diweddariad ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

7. Monitro Risg

Roedd diweddariadau blaenorol a gyfeiriwyd gan y Bwrdd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg. Dim byd pellach i'w nodi.

12. Materion eraill

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion wrth Aelodau'r Bwrdd fod aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau wedi newid, gyda phob aelod yn newydd ac eithrio'r Cadeirydd. Roedd pob un wedi derbyn hyfforddiant 'mewnol' cychwynnol i wella'u sgiliau a gwybodaeth, a chafodd 'hyfforddiant sylfaenol' y Gymdeithas Llywodraeth Leol ei drefnu ar eu cyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gyda sesiynau dysgu a datblygu wedi'u trefnu hefyd. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion ati i gydnabod y cynnig o gefnogaeth, gan y Cadeirydd yn flaenorol, i helpu i hwyluso'r sesiynau ymwybyddiaeth, ond nododd nad oedd galw amdanyn nhw ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn cael gwahoddiad i fynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol mis Tachwedd a chyfarfod y Cydbwyllgor/Bwrdd ym mis Mawrth, ac felly efallai y byddai'n cael cwrdd â'r Aelodau newydd bryd hynny.

**17 PANEL YMGYNGHORI - BUDDSODDI A GWEINYDDU**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghori a Buddsoddi - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ar 30 Mehefin 2022.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi gostwng o £4,819 miliwn (31 Rhagfyr 2021) i £4,510 miliwn (31 Mawrth 2022). Enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Mawrth oedd 0.5%, yn erbyn meincnod penodol y cynllun, sef 6.7%. Parhaodd y cyflawniad hirdymor yn dda. Nodwyd ffigurau cyflawniad 3 blynedd y rheolwyr gweithredol.

Trafododd Aelodau'r Bwrdd y cyflawniadau a nodwyd bod Rheolwyr Cronfeydd yn cael eu penodi dros y tymor hir. Roedd Baillie Gifford yn hyderus, ac yn ymroddedig i'w egwyddorion allweddol, gan gredu y byddai'n gweithio ei ffordd drwodd, ond roedd diffyg hyder yn y farchnad. Roedd Baillie Gifford wedi cynhyrchu niferoedd gwych dros gyfnod hwy, ond roedd angen parhau i'w monitro. Nododd Aelodau'r Bwrdd hefyd, mewn perthynas â CBRE, fod hwn yn un sector (buddsoddiad eiddo) nad oedd wedi gweithio cystal yn ystod y pandemig.

Trafododd a nododd Aelodau'r Bwrdd ym mhwynt 3.8 y dadfuddsoddi o'r buddsoddiadau sy'n weddill o'r Gronfa mewn echdynnu tanwydd ffosil, gan nodi eu cefnogaeth i'r fenter yma.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod Partneriaeth Pensiwn Cymru bellach yn cynnig cronfa ecwiti carbon isel, a fyddai'n cael ei lansio ym mis Rhagfyr. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn galonogol bod y daliadau sy'n weddill yn llai nag 1%. Nododd Aelodau'r Bwrdd y sylwadau gan Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â tharged 2030.

Nododd Aelodau'r Bwrdd y cyflwyniad gan Baillie Gifford ar bwynt 4, gan nodi'r rhesymau dros y tangyflawniad. Cafodd Aelodau'r Bwrdd sicrwydd nad oedd y Gronfa'n buddsoddi mewn unrhyw beth dadleuol.

Nododd Aelodau'r Bwrdd y cyflwyniad cadarnhaol gan CBRE ar dudalen 10, a oedd yn rhagweld elw da ar gyfer 2022. Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod hwn yn cynnwys cyfuniad o unedau.

Nododd Aelodau'r Bwrdd y byddai'r cyflwyniad gan Mercer yn cael ei ailgyflwyno gan fod nifer o anghysondebau ac anghywirdebau yn yr adroddiad diweddaraf. Nododd Aelodau'r Bwrdd fod y mater hwn wedi'i uwchgyfeirio o fewn Mercer gan fynegi lefel isel o hyder yn ei ddadansoddiad cyflawniad. Bydd y panel yn cadw golwg fanwl ar ddatblygiadau.

Roedd Aelodau'r Bwrdd yn cydnabod ym mhwynt 7, bod Aelodau newydd o'r Pwyllgor Pensiynau wedi ymrwymo i ofynion gwybodaeth ac ymwybyddiaeth Pensiynau.

O ran Gweinyddiaeth, nododd Aelodau'r Bwrdd ym mhwynt 9.2 ddau Gais Cytundeb Derbyn a gymeradwywyd gan y Panel, yn gysylltiedig â chontractwyr glanhau ac yn 9.3, nid oedd unrhyw daliadau hwyr na thoriadau posibl i'w hadrodd i'w hystyried yn ystod y cyfnod hwn.

O ran Llywodraethu, yn 9.4, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Pensiynau

ddiweddariad:-

- Nodwyd bod y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cyhoeddi canllawiau newydd i ymddiriedolwyr ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ar gyfer Dangosfyrddau Pensiynau. Trafododd Aelodau'r Bwrdd y goblygiadau a chytunodd y Rheolwr Gwasanaeth Pensiynau i gylchredeg yr wybodaeth i bawb.
- Nododd Aelodau'r Bwrdd fod yr Isafswm Oedran Pensiwn Arferol (NMPA) yn rhywbeth i gadw llygad arno. Mae rheoliadau RhCT yn nodi 55 ar hyn o bryd, felly byddai goblygiadau pe byddai hyn yn newid.
- Nododd Aelodau'r Bwrdd newidiadau sylweddol mewn perthynas â thaliadau diswyddo Arbennig. Er bod y canllawiau ddim yn berthnasol i awdurdodau Cymru, gallai Cymru eu dilyn.
- Nododd Aelodau'r Bwrdd, mewn perthynas â'r Cod Ymarfer Sengl, sydd i'w lansio o Hydref 2022, cyn gynted ag y byddai unrhyw beth ar ofynion llywodraethu wedi'i dderbyn, trwy waith Bwrdd Cynghori'r Cynllun, y byddai Aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn ymwneud â'r broses cefnogi cydymffurfiaeth.

Bu Aelodau'r Bwrdd yn trafod Prisiad Diwedd y Flwyddyn, pwynt 9.5, a nodwyd bod amserlen gytûn, rhagdybiaethau, trafodaethau risg a thrafodaeth ynghylch effaith chwyddiant tymor byr, gydag Actiwari'r gronfa.

Nododd Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â Chyfathrebu, pwynt 9.6, fod fforwm Cyfathrebu'r Gronfa wedi'i gynnal ar 6 Gorffennaf. Byddai ymarfer wedi'i dargedu o aelodaeth y gronfa bensiwn ar-lein yn cael ei gynnal, i helpu i gynyddu'r niferoedd. Roedd ymarfer ardystio bywyd ar y gweill er mwyn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf e.e. gwybodaeth o ran marwolaethau ar gyfer y rhai oedd yn byw dramor.

Mewn perthynas â phwynt 9.11, Safonau Gwasanaeth Allweddol, nododd Aelodau'r Bwrdd fod cyflawniad yn her, wrth i ofynion y Gwasanaeth gynyddu ac wrth i'r datblygiad angenrheidiol barhau o fewn y Garfan. O ran adnoddau byddai ymarfer recriwtio yn cael ei gynnal yn yr Hydref, gyda'r rhaglen brentisiaeth yn profi'n llwyddiannus. Nododd Aelodau'r Bwrdd ei bod yn anodd recriwtio staff arbenigol a sy wedi'u hyfforddi ym maes pensiynau llywodraeth leol.

Nododd Aelodau'r Bwrdd, mewn perthynas â'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol, bod y niferoedd yn isel iawn, pwynt 9.12, a oedd yn gadarnhaol.

Mewn perthynas â rhaglen buddsoddi mewn dyled breifat ar y cyd y Bartneriaeth ym mhwynt 11.0:

- Nododd Aelodau'r Bwrdd, pwynt 11.2, fod hwn yn debygol o gael ei lansio ddiwedd mis Tachwedd. Roedd y gronfa ecwiti cynaliadwy wedi'i chymeradwyo yng nghyfarfod diwethaf y Bartneriaeth.
- O ran pwynt 11.6, gofynnodd Aelodau'r Bwrdd am eglurhad mewn perthynas â'r buddsoddwyr seilwaith arfaethedig. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd fod hyn yn cynnwys ffyrdd, trafnidiaeth adnewyddadwy ac ynni. Roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd buddsoddi yng Nghymru lle mae'r

achos buddsoddi yn gadarn, ond o ran seilwaith ehangach, byddai'r Gronfa'n agored i gyfleoedd byd-eang.

Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD cydnabod yr wybodaeth sydd wedi'i diweddaru.

**18 MONITRO RISG**

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

PENDERFYNWYD nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**19 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r Bwrdd.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

**20 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH**

Cyflwynwyd y fframwaith gwybodaeth a dealltwriaeth i Aelodau'r Bwrdd.

Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd wirio manylion yr hyfforddiant a gyflawnwyd ar dudalennau 32 – 38, a hysbysu TG os oedd unrhyw beth ar goll.
Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd.

**21 Llywodraethu - Diweddariad o ran Covid**

Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y trefniadau llywodraethu ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i arferion gwaith Covid.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod bod Gwasanaeth Pensiynau RhCT yn dal i weithio yn y dull hybrid a bod staff wrthi'n gweithio yn y swyddfa 2 ddiwrnod yr wythnos. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid hyn yn y dyfodol agos, o ystyried y gweithgaredd datblygu Gwasanaeth a gynllunnir

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r diweddariad.

**22 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL**

Rhoddodd y Swyddog Graddedig - Pensiynau ddiweddariad gwasanaeth ar Brosiect McCloud i Aelodau'r Bwrdd.

Dywedodd Aelodau'r Bwrdd fod hyn wedi bod yn addysgiadol iawn ac wedi rhoi persbectif pellach o ran y niferoedd a chymhlethdod dan sylw.

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd hefyd y byddai'r rheoliadau'n dod i rym, ym mis Hydref 2023, er tan hynny, roedd y ffocws ar gasglu data i helpu i lywio'r ffordd ymlaen.

Cydnabu Aelodau'r Bwrdd arwyddocâd y Prosiect yma a bydd diweddariadau pellach ar gynnydd yn parhau i gael eu cyflwyno i gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, yr Aelodau **PENDERFYNWYD** nodi'r cyflwyniad a diolchodd i'r Swyddog Graddedig am ddiweddariad manwl ac addysgiadol.

**23 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CORFFORAETHOL**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys ddiweddariad i Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â materion amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd fod y Gronfa Bensiwn wedi gwneud ymrwymiad i weithio tuag at fod yn garbon niwtral erbyn 2030 ac y byddai trafodaethau'n parhau gyda'r Pwyllgor Pensiynau yn hyn o beth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau'r Bwrdd nodi'r diweddariad ar lywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

**24 UNRHYW FATERION ERAILL**

Dim

**Daeth y cyfarfod i ben am 1pm**

**Mr R Whiles**
**CADEIRYDD.**